Rhif Ymchwil Cymdeithasol: 12/2021
Dyddiad cyhoeddi: 24/02/2021

# Adroddiad Galw'r Farchnad ym maes Twristiaeth:
# y DU Mawrth 2020

Adroddiad Galw'r Farchnad ym maes Twristiaeth:
y DU  Mawrth 2020
Awduron yr Adroddiad: Jonathan Young a Tanya Sharapova

BVA BDRC

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
David Stephens
Uwch Reolwr Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: David.stephens@gov.wales

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80082-895-7

# Croeso Cymru

## Adroddiad Cryno

## Astudiaeth Marchnad

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 5

2. Prif Ganfyddiadau 7

3. Dylanwadau ar ymddygiad gwyliau a gwyliau byr 10

4. Ystyriaeth ar gyfer cyrchfannau 21

5. Ymweld â Chymru 30

6. Cyswllt gyda Croeso Cymru 38

7. Prif Ganfyddiadau a Goblygiadau 41

8. Atodiad: Methodoleg 43

# 1. Cyflwyniad

## Deall yr adroddiad hwn

1.1 Fel tîm twristiaeth Llywodraeth Cymru, mae Croeso Cymru yn gyfrifol am ddefnyddio ymgyrchoedd twristiaeth yn y DU ac yn rhyngwladol i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan gwyliau. Fel rhan o hyn, bob blwyddyn mae Croeso Cymru yn cynnal ymchwil ymhlith ei marchnadoedd blaenoriaeth. Mae'r ymchwil yn edrych yn fras ar:

- Bwriadau gwyliau cyffredinol a gwyliau byr ar gyfer y 12 mis sydd i ddod.
- Y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis gwyliau a gwyliau byr, yn gyffredinol ac i/o fewn y DU.
- Mathau o gyrchfannau a phrofiadau a ffafrir ar gyfer gwyliau a gwyliau byr yn y DU.
- Ymwybyddiaeth, canfyddiadau ac ystyriaeth o gyrchfannau yn y DU ar gyfer gwyliau neu wyliau byr.
- Canfyddiadau o Gymru fel cyrchfan gwyliau neu wyliau byr.
- Ffynonellau cynllunio ac archebu ar gyfer tripiau i Gymru.
- Ymgysylltu â sianeli gwybodaeth Croeso Cymru.
- Proffilio a demograffeg.

1.2 Cynhelir yr ymchwil ar wahanol adegau drwy gydol y flwyddyn.

1.3 Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o adroddiadau cryno rheolaidd a gyhoeddir yn dilyn pob ton o'r astudiaeth. Bydd yr adroddiadau cryno yn amlinellu canfyddiadau allweddol pob ton.

1.4 Mae’r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau **marchnad y DU.**

## Methodoleg

1.5 Cysylltwyd ag ymatebwyr drwy banel ar-lein y gellid ei gwblhau drwy fwrdd gwaith neu ddyfais symudol.

1.6 Cynhaliwyd gwaith maes rhwng 20fed Chwefror ac 2il Mawrth 2020, cyn y prif achosion o COVID-19 a'r cyfyngiadau yn y DU. Cwblhawyd 600 o ymatebion.

1.7 Cwblhawyd 1,150 o arolygon. Roedd y 1,000 o ymatebion cyntaf yn cynrychioli poblogaeth ddomestig y DU sy'n cymryd gwyliau yn genedlaethol. Yna cynhaliwyd hwb o 150 o arolygon ymhlith preswylwyr o Gymru. Pwysolwyd y tablau data terfynol i fod yn gynrychioliadol o boblogaeth y DU sy'n cymryd gwyliau domestig.

1.8 Ar gyfartaledd, cymerodd yr arolwg 20 munud i'w gwblhau.

## Diffiniad sampl

1.9 I fod yn gymwys ar gyfer yr arolwg, roedd yn rhaid i gyfranogwyr fodloni'r meini prawf canlynol:

- Bod yn gynrychioliadol o boblogaeth y DU sy'n cymryd gwyliau domestig yn ôl oedran, rhyw a rhanbarth.
- Rhaid bod yn benderfynwr gwyliau neu wyliau byr.
- Rhaid bod yn ystyried cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU *o ddifrif* yn ystod y 12 mis nesaf.

# 2. Prif Ganfyddiadau

| 29 | -18 | -18 |
|---|---|---|
| Pwynt canran | Pwynt canran | Pwynt canran |
| Cynnydd net yn y bwriad i gymryd tripiau i'r DU yn y 12 mis nesaf. | Gostyngiad net yn y bwriad i gymryd tripiau i Ewrop yn y 12 mis nesaf. | Gostyngiad net yn y bwriad i gymryd tripiau i weddill y byd yn y 12 mis nesaf. |

**Y prif resymau dros *lai* o dripiau yn y DU**

- **30%** Tywydd annibynadwy
- **28%** Amgylchiadau personol
- **27%** Lleoedd dramor yn fwy deniadol

**Y prif resymau dros *fwy* o dripiau yn y DU**

- **43%** Am weld mwy o'r hyn sydd gan y DU i'w gynnig
- **43%** Teithio'n haws
- **34%** Tripiau'n rhatach

**Mwyaf tebygol o ystyried trip i'r DU i weld:**



Arfordir golygfaol a harbwrs

**50%**



Dinasoedd a threfi mawr

**49%**



Trefi hanesyddol a threftadaeth


**48%**



Cefn gwlad a phentrefi golygfaol

**46%**

**Mae Cymru fwyaf cysylltiedig â chefn gwlad a phentrefi golygfaol**



7


## Perthynas â Chyrchfannau Gwyliau yn y DU




| | Cymru | Arfordir y De | Gwlad y Gorllewin | Gogledd Swydd Efrog |
|---|---|---|---|---|
| Ymweliadau blaenorol | 63% | 61% | 66% | 55% |
| Cynefindra | 38% | 45% | 43% | 39% |
| Ystyriaeth | 26% | 27% | 33% | 24% |
| | **Ardal y Llynoedd** | **Yr Alban** | **Peak District** | **Iwerddon** |
| Ymweliadau blaenorol | 54% | 60% | 41% | 44% |
| Cynefindra | 38% | 35% | 29% | 20% |
| Ystyriaeth | 26% | 29% | 15% | 20% |

## Demograffeg allweddol marchnad y DU sy'n ystyried trip i Gymru


### Ystyriaeth o Gymru fesul segment




### Oed 'ystyrwyr' i Gymru




### Rhanbarth 'ystyrwyr' i Gymru




### Cyfran o 'ystyrwyr' i Gymru sydd â phlant o dan 16 oed gartref

# 36%

## Y 5 prif reswm dros beidio ag ymweld â Chymru

**26%**
Lleoedd eraill fwy deniadol


**25%**
Rhy bell i deithio

**23%**
Nid yw amodau tywydd yn ddeniadol

**21%**
Wedi ymweld yn flaenorol ac eisiau rhoi cynnig ar rywle arall

**20%**
Anodd teithio i Gymru ac o amgylch Cymru.

## Pryd y cynllunir y trip nesaf i Gymru




## Y 3 prif le y bwriedir ymweld â nhw

**29%** Eryri

**25%** Llandudno a Bae Colwyn

**21%** Caerdydd

## Hyd trip cynlluniedig i Gymru ymhlith 'ystyrwyr i Gymru'

**39%**
Yn cynllunio cymryd gwyliau byr i Gymru (1-3 noson)

**60%**
Yn cynllunio cymryd gwyliau i Gymru (4+ noson)

**5** noson
Hyd cyfartalog trip cynlluniedig i Gymru (nosweithiau)

**Y prif ffynonellau gwybodaeth y mae marchnad y DU yn eu defnyddio i gynllunio teithiau (%)**


**63%** Gwefannau/apiau

**50%** Argymhelliad personol

**31%** E-bost neu gyfryngau cymdeithasol

**25%** Gwybodaeth brintiedig

## Cyfathrebiadau a welwyd/glywyd am Gymru yn ddiweddar




**22%**

Yn cofio gweld hysbyseb teledu Croeso Cymru (prociwyd)

**20%**

Yn nodi nad ydyn nhw erioed wedi bod ar wyliau neu wyliau byr i Gymru ond yr hoffen nhw wneud hynny.

**Y dull teithio a ragwelir i Gymru**

**75%** Car fy hun

**16%** Trên

**6%** Bws/coets gyhoeddus


# 3. Dylanwadau ar ymddygiad gwyliau a gwyliau byr

## Prif ddylanwadau ar ymddygiad gwyliau a gwyliau byr

3.1 'Arian personol' yw'r ffactor sydd fwyaf tebygol o ddylanwadu ar benderfyniadau gwyliau a gwyliau byr marchnad y DU yn 2020 (80% yn nodi bod ganddo lawer/ychydig o ddylanwad), ac yna 'pryderon ynghylch diogelwch' (62%). Yn gysylltiedig ag arian personol, mae ‘cyflwr yr economi’ (49%) a 'cyfraddau cyfnewid' (47%) hefyd yn bwysig.

3.2 Mae 'newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd' mor ddylanwadol â chyfraddau cyfnewid, bron i hanner yn eu nodi fel dylanwad. Roedd Brexit yn cael ei ystyried yn ddylanwad i bron i 4 o bob 10 (38%), er mai dim ond 11% sy'n ystyried ei fod yn cael 'llawer' o ddylanwad.

3.3 Ni chrybwyllwyd Coronafeirws yn ddigymell gan ymatebwyr ond mae hyn yn debygol o ganlyniad i amseriad yr arolwg cyn i'r feirws waethygu ar raddfa fyd-eang.




## Bwriad i gymryd gwyliau/gwyliau byr

3.4 Yn nodedig, roedd marchnad twristiaeth ddomestig y DU yn llawer mwy tebygol o fod yn rhagweld mynd ar fwy o dripiau domestig yn ystod y 12 mis nesaf, na llai (38% o'i gymharu â 9%, gyda net o +29). Y gwrthwyneb yw'r achos dros wyliau a gwyliau byr i dir mawr Ewrop a Gweddill y Byd. Digwyddodd yr ymchwil hon cyn i COVID-19 gael effaith yn Ewrop, felly mae'r duedd hon yn debygol o fod wedi'i gorliwio hyd yn oed yn fwy.

3.5 'Archwilwyr teuluol egnïol' (+36), 'archwilwyr cyn-teulu' (+32) ac 'archwilwyr diwylliant hŷn (hefyd +32) oedd segmentau blaenoriaeth Croeso Cymru sydd fwyaf tebygol o ddweud y byddant yn cymryd mwy o dripiau net yn y DU yn ystod y 12 mis nesaf.

3.6 Ymhlith segmentau nad ydynt yn flaenoriaeth Croeso Cymru, 'teuluoedd ar gyllideb' (+37%) oedd fwyaf tebygol o fwriadu mynd ar fwy o dripiau yn y DU.




**Gwyliau a ragwelir yn y DU fesul rhanbarth a segment (%)**

| | Cymru | Gogledd-ddwyrain Lloegr | Gogledd-orllewin Lloegr | Swydd Efrog | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Gorllewin Canolbarth Lloegr | Dwyrain Lloegr | Llundain | De-ddwyrain Lloegr | De-orllewin Lloegr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mwy o dripiau** | 36% | 29% | 35% | 36% | 40% | 43% | 41% | 40% | 36% | 34% |
| **Tua'r un peth** | 57% | 57% | 57% | 55% | 55% | 45% | 51% | 46% | 56% | 61% |
| **Llai o dripiau** | 7% | 15% | 8% | 10% | 6% | 12% | 9% | 14% | 8% | 5% |

| | Archwilwyr diwylliant hŷn (maint sylfaen bach o dan 30 – i'w drin â gofal) | Archwilwyr golygfeydd sy'n gyplau | Archwilwyr teuluol egnïol | Archwilwyr cyn-teulu | Teuluoedd ar gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mwy o dripiau** | 32% | 23% | 47% | 40% | 44% |
| **Tua'r un peth** | 68% | 74% | 41% | 52% | 49% |
| **Llai o dripiau** | 0% | 2% | 11% | 8% | 7% |

## Rhesymau dros gymryd mwy o dripiau yn y DU

3.7 O'r 38% o farchnad ddomestig y DU sy'n rhagweld cymryd mwy o dripiau yn y DU, cryfder cynnyrch y DU, mynediad cyfleus ac ystyriaethau ariannol oedd y rhesymau cyffredinol.

3.8 Y prif reswm oedd 'Rwyf am weld mwy o'r hyn sydd gan y DU i'w gynnig' (a nodwyd gan 43%), ac yna 'mae'n haws teithio yn y DU na theithio dramor' (hefyd 43%) a 'mae tripiau yn y DU yn rhatach na mynd dramor' (34%).


3.9 Roedd ystyriaethau ariannol yn amlwg mewn mannau eraill, 26% yn nodi na allant fforddio mynd dramor ar hyn o bryd. Yn gyffredinol, roedd rhesymau ariannol yn annog mwy o dripiau yn y DU ar gyfer 50% o'r ymatebwyr hyn.

3.10 Mae cymysgedd o bobl yn awyddus i ymweld â lleoedd newydd a chyfarwydd, gan danlinellu pwysigrwydd cyflwyno cyfathrebiadau sefydledig, newydd, hiraethus a darganfod o fewn cyfathrebiadau cyrchfannau.

3.11 Ar gyfer tua 3 o bob 10, mae'r cynnydd mewn tripiau domestig yn golygu cyfnewid gwyliau hirach am nifer uwch o wyliau byr. Gall hyn olygu na fydd nifer y nosweithiau a dreulir yn y DU yn cynyddu ar yr un gyfradd â nifer y tripiau.


3.12 Mae Brexit a'r amgylchedd yn sbardunau llai amlwg ar gyfer cymryd mwy o wyliau domestig, er eu bod yn sbardun i tua 1 o bob 6.

**Rhesymau dros gymryd mwy o dripiau yn y DU yn ystod y 12 mis nesaf (%)**



## Rhesymau dros gymryd llai o dripiau yn y DU

3.13 O'r 9% o Brydeinwyr a ragwelodd gymryd llai o dripiau o fewn y DU yn ystod y 12 mis nesaf, nodwyd mai 'y tywydd' oedd y prif reswm (gan 30%), ac yna 'amgylchiadau personol' (28%) a 'lleoedd eraill dramor yn fwy deniadol' (27%). Nododd 1 o bob 4 (26% sy'n dod i ddim ond 2% o'r farchnad dwristiaeth ddomestig gyfan) 'mae'r DU yn ddrutach na thramor' fel rheswm dros gymryd llai o dripiau domestig.



## Mathau o gyrchfannau gwyliau sy'n cael eu hystyried yn y DU

3.14 Mae mathau amrywiol o gyrchfannau gwyliau yn y DU yn apelio i farchnad y DU, er bod pum math yn sefyll allan fwy nag unrhyw un arall. 'Arfordir golygfaol a harbwrs' yw'r rhai a ffafrir fwyaf (50% yn ystyried hyn), ac yna'n agos mae 'dinasoedd a threfi mawr' (49%), 'trefi hanesyddol a threftadaeth' (48%), 'cefn gwlad a phentrefi golygfaol' (46%) a 'chyrchfannau glan môr traddodiadol (42%). Gyda'i gilydd, ystyrir ardaloedd trefol ar gyfer 68% o farchnad y DU; glan môr neu arfordir i 66%; ac ardaloedd gwledig (cefn gwlad a phentrefi, tiroedd gwyllt a natur ac antur mynydd) i 58%. Mae ardaloedd arfordirol a gwledig gyda'i gilydd yn apelgar i 83%, gan danlinellu'r cyfle i'r Flwyddyn Awyr Agored arddangos holl asedau awyr agored Cymru.

3.15 Roedd rhywfaint o amrywiaeth ar draws segmentau blaenoriaeth Croeso Cymru, er bod 'arfordir golygfaol a harbwrs' yn un o'r tri phrif ddylanwad ar gyfer pob un. Roedd 'archwilwyr diwylliant hŷn' yn mynegeio'n sylweddol uwch ar gyfer 'trefi hanesyddol a threftadaeth' (78% o'i gymharu â 48% ar gyfartaledd), math o gyrchfan a oedd hefyd yn fwyaf poblogaidd ar gyfer 'archwilwyr cyn-deulu' (68%). Ar gyfer 'archwilwyr golygfeydd', 'arfordir golygfaol a harbwrs' fynegeiodd uchaf (78% o'i gymharu â 50% ar gyfartaledd). Ar gyfer 'archwilwyr teuluol egnïol', 'pentrefi/canolfannau gwyliau (e.e. Center Parcs)' oedd y prif ddewis (53% yn ystyried y math hwn o drip yn y DU o'i gymharu â 28% ar gyfartaledd).

3.16 Mae gan Gymru gysylltiadau amrywiol â'r pum math o gyrchfan a ystyrir fwyaf. Mae 54% yn cysylltu Cymru'n gryf â 'chefn gwlad a phentrefi golygfaol', 43% â 'threfi hanesyddol a threftadaeth', 41% ag 'arfordir golygfaol a harbwrs', 31% â 'chyrchfannau glan môr traddodiadol a 25% gyda 'dinasoedd a threfi mawr'. Fodd bynnag, er gwaethaf rhai cysylltiadau cryf, nid Cymru yw'r un sy'n gysylltiedig *fwyaf* ag unrhyw un o'r mathau o gyrchfannau (gweler y tabl isod).

**Mathau o gyrchfannau gwyliau a ystyrir ar gyfer trip i'r DU (%)**



### Mathau o gyrchfannau gwyliau a ystyrir ar gyfer trip i'r DU (% fesul segment)

*Tri math o gyrchfan a ffafrir fwyaf fesul segment mewn coch*

| | Archwilwyr diwylliant hŷn (maint sylfaen bach o dan 30 – i'w drin â gofal) | Archwilwyr golygfaol sy'n gyplau | Archwilwyr teuluol egnïol | Archwilwyr cyn-teulu | Teuluoedd ar gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|
| Arfordir golygfaol a harbwrs | **66%** | **78%** | **52%** | **67%** | **54%** |
| Dinasoedd a threfi mawr | **65%** | 34% | 39% | 60% | 51% |
| Trefi hanesyddol a threftadaeth | **78%** | **71%** | 39% | **68%** | 44% |
| Cefn gwlad a phentrefi golygfaol | 60% | **69%** | **52%** | **63%** | 46% |
| Cyrchfannau glan môr traddodiadol | 36% | 32% | 48% | 56% | **62%** |
| Pentref/canolfan gwyliau | 11% | 8% | **53%** | 23% | **53%** |
| Tiroedd gwyllt a natur | 16% | 48% | 35% | 31% | 26% |
| Antur fynyddig | 32% | 22% | 45% | 27% | 23% |
| Gwesty cyrchfan fawr | 11% | 11% | 25% | 22% | 23% |
| Gwyliau teithiol | 35% | 28% | 24% | 21% | 14% |

### Cysylltiadau math o gyrchfan ar gyfer pob ardal o'r DU

*Mae'r tabl isod yn dangos cysylltiadau mathau o gyrchfannau gyda phob ardal. Er enghraifft, mae 41% yn cysylltu Cymru'n gryf ag arfordir golygfaol a harbwrs. Amlygir mewn coch y 2 ardal gysylltiedig orau ar gyfer pob math o gyrchfan.*


| | Dinasoedd a threfi mawr | Trefi hanesyddol a threftadaeth | Cefn gwlad phentrefi golygfaol | Cyrchfannau glan môr traddodiadol | Pentref/canolfan gwyliau | Tiroedd gwyllt a natur | Antur Mynydd | Gwesty Cyrchfan Fawr | Gwyliau Teithiol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | 25% | **43%** | 54% | **31%** | 18% | 39% | 51% | 14% | 35% |
| **Yr Alban** | **54%** | **61%** | 54% | 11% | 9% | **56%** | **66%** | 14% | **63%** |
| **Iwerddon** | **38%** | **43%** | 47% | 12% | 9% | 35% | 20% | 10% | **50%** |
| **Gwlad y Gorllewin** | 16% | 42% | **59%** | **68%** | **32%** | 33% | 10% | **29%** | 39% |
| **Ardal y Llynoedd** | 7% | 29% | **60%** | 8% | **29%** | **52%** | **52%** | **18%** | 41% |

## Mathau o brofiadau sy'n cael eu hystyried yn y DU

3.18 Mae marchnad gwyliau domestig y DU yn fwyaf tebygol o gael ei denu i 'roi cynnig ar fwyd a diod lleol' (55%) ac 'ymweld â safleoedd ac atyniadau treftadaeth' (51%) tra ar wyliau neu wyliau byr yn y DU. Mae awydd clir hefyd i archwilio a'r awyr agored – bron i 2 o bob 5 â diddordeb mewn archwilio golygfeydd mewn car (37%) a cherdded, heicio a chrwydro (36%), tua 3 o bob 10 (31%) â diddordeb mewn profiadau natur a bywyd gwyllt ac 1 o bob 5 mewn gweithgareddau antur (19%) a chwaraeon dŵr (16%).

3.19 Er nad yw'n uchel yn unigol, mae gweithgareddau sy'n cyfeirio'n benodol at ymarfer corff (cerdded, heicio neu grwydro, seiclo, chwaraeon dŵr, golff a gweithgareddau antur) o ddiddordeb i 55% o'r farchnad.

3.20 'Ymweld â safleoedd ac atyniadau treftadaeth' yw'r math o brofiad yr hoffai'r rhan fwyaf o segmentau blaenoriaeth Croeso Cymru ei wneud fwyaf, ac eithrio 'archwilwyr teuluol gweithredol' y mae 'rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol' ac 'atyniadau teuluol' bwysicaf iddynt. Mynegodd 'cerdded, heicio neu grwydro' yn uwch ar gyfer pob un o segmentau blaenoriaeth Croeso Cymru nag unrhyw segment nad yw'n flaenoriaeth. Mae gan segment Archwilwyr Teuluol Egnïol lefelau uwch o ddiddordeb ar draws ystod o brofiadau.



**Mathau o brofiadau yr hoffai pobl eu gwneud fwyaf ar drip yn y DU (%)**

*Mae’r pum profiad gorau a ffafrir fwyaf yn ôl segment mewn coch.*

| | Archwilwyr diwylliant hŷn* (maint Sylfaen bach o dan 30 – i’w drin â gofal) | Archwilwyr golygfeydd sy’n gyplau | Archwilwyr teuluol egnïol | Archwilwyr cyn-teulu | Teuluoedd ar gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol** | **52%** | **55%** | **69%** | **53%** | **56%** |
| **Ymweld â safleoedd ac atyniadau treftadaeth** | **84%** | **78%** | **47%** | **65%** | **46%** |
| **Archwilio ardaloedd golygfaol mewn car** | **68%** | **71%** | 41% | **39%** | 34% |
| **Cerdded, Heicio neu Grwydro** | **48%** | **57%** | **49%** | **46%** | **41%** |
| **Ymweld ag atyniadau teuluol** | 6% | 17% | **55%** | 26% | **66%** |
| **Profiadau natur a bywyd gwyllt (e.e. gwylio adar)** | **34%** | **50%** | **47%** | 34% | **39%** |
| **Siopa arbenigol (e.e. ar gyfer rhywbeth nad ydych yn ei brynu’n rheolaidd)** | 7% | 14% | 29% | 27% | 23% |
| **Mynychu perfformiadau cerddoriaeth fyw, gŵyl neu gelf** | 18% | 12% | 30% | **43%** | 23% |
| **Ymweld â lleoliadau sy'n ymddangos ar y teledu, ffilm neu'r cyfryngau** | 14% | 20% | 37% | 35% | 17% |
| **Profiadau iechyd neu lles (e.e. sba, tylino ac ati)** | 14% | 17% | 30% | 39% | 27% |
| **Gweithgareddau antur** | 9% | 9% | 37% | 17% | 25% |
| **Chwaraeon Dŵr (e.e. nofio, syrffio, bordhwylio ac ati)** | 11% | 12% | 29% | 16% | 27% |
| **Gweithgareddau creadigol neu artistig (e.e. ffotograffiaeth, arlunio ac ati)** | 5% | 15% | 21% | 13% | 10% |
| **Beicio neu feicio mynydd** | 6% | 10% | 16% | 9% | 11% |
| **Gweithgareddau cadwraeth neu wirfoddoli** | - | 6% | 13% | 19% | 7% |
| **Golff** | 5% | 4% | 8% | 5% | 4% |

## Ffactorau dylanwadol wrth ddewis tripiau yn y DU

3.21 Ystyriaethau ariannol yw'r rhai amlycaf wrth ddewis gwyliau neu wyliau byr yn y DU, 59% yn nodi 'gwerth gwych am arian' fel rheswm dylanwadol. Dilynir hyn gan harddwch naturiol y DU (45% yn nodi 'golygfeydd a thirwedd' fel ffactor dylanwadol) a threftadaeth (39% yn nodi 'cyrchfan sy'n gyfoethog o ran hanes a threftadaeth' a 37% yn nodi tirnodau ac atyniadau enwog – 53% pan gânt eu rhwydo gyda'i gilydd). Mae ffactorau amgylcheddol yn is i lawr y rhestr, er eu bod yn dal i fod yn ddylanwadol ar gyfer 20%.

3.22 Nid yw pob un o wyliau domestig y DU yn ystyried arbed arian ar eu tripiau, mae tua thraean (35%) yn nodi 'llety o ansawdd uchel' fel dylanwad. Ynghyd â 'llety gyda swyn/cymeriad', mae llety yn sbardun i hanner y farchnad, yn bwysicach nag i farchnadoedd Iwerddon a'r Almaen. Soniwyd hefyd am ffactorau eraill gan gynnwys 'llawer o weithgareddau a phethau i'w gwneud' (gan 35%).

3.23 Ymhlith segmentau blaenoriaeth Croeso Cymru, 'hanes a threftadaeth gyfoethog' oedd y dylanwad pwysicaf i 'archwilwyr diwylliant hŷn' (81% o'i gymharu â 39% ar gyfartaledd), 'Golygfeydd a thirweddau' oedd y pwysicaf i 'archwilwyr golygfeydd' (84% o'i gymharu â 45%), 'gwerth gwych am arian' ar gyfer 'archwilwyr cyn-teulu' (64% o'i gymharu â 59%) ac 'archwilwyr teuluol egnïol' (57% o'i gymharu â 59%); mae llawer o weithgareddau a phethau i'w gwneud hefyd wedi mynegeio'n uchel ar gyfer y segment hwn (46% o'i gymharu â 35% ar gyfartaledd). O'i gymharu â segmentau eraill, roedd 'rhywle y gallwch ymweld ag ef drwy gydol y flwyddyn' yn bwysicach i 'archwilwyr diwylliant hŷn' (47% o'i gymharu â 34% ar gyfartaledd) ac 'archwilwyr golygfeydd sy'n gyplau' (48%).



**Y ffactorau mwyaf dylanwadol pan yn mynd ar drip yn y DU (% fesul segment)**


*Mae'r pum ffactor mwyaf dylanwadol yn ôl segment mewn coch*

| | Archwilwyr diwylliant hŷn (maint Sylfaen yn fach o dan 30 – i'w drin â gofal) | Archwilwyr golygfeydd sy'n gyplau | Archwilwyr teuluol egnïol | Archwilwyr cyn-teulu | Teuluoedd ar gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth da am arian | 42% | **61%** | **57%** | **64%** | **75%** |
| Golygfeydd a thirweddau anhygoel | **70%** | **84%** | **44%** | **58%** | **44%** |
| Cyrchfan sy'n gyfoethog mewn hanes a threftadaeth | **81%** | **72%** | 37% | 52% | 31% |
| Tirnodau ac atyniadau ymwelwyr enwog | **55%** | **58%** | 32% | 53% | 32% |
| Llety o ansawdd uchel | **51%** | 45% | **39%** | **40%** | 33% |
| Llawer o weithgareddau a phethau i'w gwneud | 6% | 27% | **46%** | **34%** | **56%** |
| Pobl sy'n groesawgar iawn | 29% | 43% | 27% | 41% | **34%** |
| Rhywle y gallwch ymweld ag ef unrhyw adeg o'r flwyddyn | **47%** | 48% | 33% | 38% | **40%** |
| Llety gyda swyn a chymeriad | 44% | **57%** | **38%** | **47%** | 30% |
| Lleoedd gwych i archwilio ac oddi ar y llwybr sathredig | 14% | 56% | 33% | 36% | 26% |
| Profiad diwylliannol dilys | 15% | 29% | 21% | 36% | 15% |
| Cyrchfan amgylchedd-gyfeillgar | 25% | 19% | 35% | 27% | 27% |
| Cyfleoedd i archwilio hobïau a diddordebau | 11% | 20% | 27% | 40% | 17% |
| Diwylliant ffyniannus a lleoliad yn cynnwys adloniant | 7% | 16% | 28% | 24% | 17% |
| Cyfleoedd i gwrdd a chymdeithasu â phobl eraill | 17% | 14% | 18% | 16% | 15% |

# 4. Ystyriaeth ar gyfer cyrchfannau

## Cynefindra â chyrchfannau dethol

4.1 Mae dros draean (36%) o farchnad gwyliau'r DU yn teimlo eu bod yn adnabod Cymru'n dda iawn/gweddol dda, yn is na'r gyfran sy'n teimlo felly am Arfordir De Lloegr, Gorllewin Lloegr a Swydd Efrog, ond yn uwch na'r Alban, y Peak District ac Iwerddon. O segmentau blaenoriaeth Croeso Cymru, mae cynefindra â Chymru ar ei uchaf ymhlith 'archwilwyr golygfeydd' (49% o'i gymharu â 36% ar gyfartaledd) ac 'archwilwyr teuluol egnïol' (44%). Mae ar ei isaf ymhlith 'archwilwyr diwylliant hŷn' (30%) ac 'archwilwyr cyn-teulu' (31%).





**Cynefindra â phob cyrchfan yn ôl Rhanbarth Preswylio (%)**

*Amlygir y tri uchaf mewn coch (Mae'r Rhanbarth Preswylio ar y rhes lorweddol, cyrchfan ar hyd y golofn fertigol – e.e. mae 43% o breswylwyr Cymru yn gyfarwydd iawn/eithaf cyfarwydd ag Arfordir De Lloegr).*


| Cyrchfan | Rhanbarth Preswylio | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru | Yr Alban | Gogledd-ddwyrain Lloegr | Gogledd-orllewin Lloegr | Swydd Efrog | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Gorllewin Canolbarth Lloegr | Dwyrain Lloegr | Llundain | De-ddwyrain Lloegr | De-orllewin Lloegr |
| Cymru | **95%** | 19% | 17% | **47%** | 24% | 32% | **57%** | 26% | 39% | 28% | **36%** |
| Arfordir De Lloegr | **43%** | 22% | 31% | 33% | **36%** | 25% | **44%** | **52%** | **56%** | **76%** | **61%** |
| Gwlad y Gorllewin | **52%** | 21% | 19% | 39% | 32% | **35%** | **50%** | **39%** | **45%** | **54%** | **78%** |
| Swydd Efrog | 24% | **29%** | **54%** | **50%** | **86%** | **39%** | 32% | **35%** | **38%** | **32%** | 28% |
| Ardal y Llynoedd | 34% | **33%** | **56%** | **59%** | **36%** | 29% | 33% | 30% | 36% | 30% | 23% |
| Yr Alban | 20% | **93%** | **49%** | 31% | 32% | 22% | 28% | 23% | 32% | 31% | 24% |
| Peak District | 22% | 20% | 32% | 40% | **42%** | **33%** | 24% | 29% | 35% | 24% | 14% |
| Iwerddon | 17% | 17% | 17% | 21% | 16% | 12% | 17% | 9% | 35% | 16% | 12% |

**Perthynas â phob cyrchfan (%)**

4.2 Nid yw cynefindra'n cyfateb yn uniongyrchol i ymweliadau blaenorol â gwyliau neu wyliau byr. Dim ond Gwlad y Gorllewin (66%) sydd wedi denu cyfran uwch o bobl na Chymru (63%) ar gyfer y rhai sydd wedi ymweld yn flaenorol am wyliau neu wyliau byr. Yn gadarnhaol, nid oedd 1 o bob 5 (20%) o farchnad gwyliau domestig y DU erioed wedi bod i Gymru am wyliau neu wyliau byr yn awyddus i wneud hynny yn y dyfodol.




4.3 Mae Archwilwyr Golygfeydd, Archwilwyr Teuluol Egnïol a Theuluoedd ar Gyllideb yn fwy tebygol o fod wedi ymweld â Chymru'n flaenorol am wyliau neu wyliau byr. Mae cyfrannau sylweddol o Archwilwyr Diwylliant Hŷn (37%) ac Archwilwyr cyn-teulu (27%) nad ydynt wedi ymweld â Chymru'n flaenorol ond yr hofftent wneud hynny. Mae hyn yn gyfle i dyfu ymwelwyr newydd i Gymru.



**Ymweliadau blaenorol i bob cyrchfan (%)**

4.5 Cymru yw'r gyrchfan yr ymwelwyd â hi *fwyaf* ar gyfer tri o ranbarthau'r DU (Cymru, Gogledd-orllewin Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr). Mae'n un o'r *tri* chyrchfan yr ymwelwyd â nhw fwyaf ar gyfer saith o ranbarthau'r DU (yn ychwanegol i'r rhai a grybwyllir uwchlaw Dwyrain Canolbarth Lloegr, Llundain, De-ddwyrain Lloegr a De-orllewin Lloegr). Er bod Cymru yn y tri rhanbarth mwyaf poblogaidd i bobl sy'n byw yn Llundain a'r De-ddwyrain, mae'r ddau yn cynhyrchu mwy o ymweliadau â Gwlad y Gorllewin a De Arfordir Lloegr.

4.6 Mae ymweliadau blaenorol yn tueddu i fod yn gysylltiedig ag agosrwydd daearyddol, er nad yw hyn yn wir bob amser. Mae trigolion yr Alban, er enghraifft, yn fwy tebygol o fod wedi ymweld â Chymru na thrigolion Dwyrain Canolbarth Lloegr neu Ddwyrain Lloegr.

**Cyfran sydd wedi ymweld â phob rhan o'r DU yn flaenorol am wyliau byr neu wyliau yn ôl ardal breswyl**.

(*Mae'r Rhanbarth Preswylio ar y rhes lorweddol, lleoliad yr ymwelwyd ag ef ar hyd y golofn fertigol – e.e. mae 55% o drigolion Cymru wedi ymweld â'r Alban am wyliau byr neu wyliau blaenorol. Mae'r tri chyrchfan yr ymwelwyd â nhw fwyaf fesul rhanbarth mewn coch. Mae Cymru wedi'i hamlygu mewn print trwm*).

| Cyrchfan | Rhanbarth Preswylio | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru | Yr Alban | Gogledd-ddwyrain Lloegr | Gogledd-orllewin Lloegr | Swydd Efrog | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Gorllewin Canolbarth Lloegr | Dwyrain Lloegr | Llundain | De-ddwyrain Lloegr | De-orllewin Lloegr |
| Cymru | **85%** | **57%** | **39%** | **80%** | **54%** | **56%** | **77%** | **49%** | **57%** | **60%** | **76%** |
| Yr Alban | 55% | 94% | 73% | 61% | 64% | 54% | 50% | 50% | 55% | 55% | 57% |
| Iwerddon | 41% | 55% | 44% | 42% | 38% | 32% | 35% | 38% | 54% | 42% | 41% |
| Swydd Efrog | 46% | 63% | 66% | 58% | 75% | 64% | 50% | 60% | 55% | 44% | 47% |
| Ardal y Llynoedd | 52% | 63% | 66% | 73% | 58% | 44% | 48% | 45% | 56% | 52% | 44% |
| Gwlad y Gorllewin | 72% | 53% | 39% | 59% | 57% | 78% | 67% | 65% | 62% | 79% | 84% |
| Peak District | 33% | 38% | 36% | 41% | 60% | 37% | 45% | 44% | 45% | 40% | 35% |
| Arfordir De Lloegr | 59% | 40% | 32% | 51% | 58% | 53% | 59% | 74% | 63% | 78% | 71% |

## Ystyriaeth o ranbarthau ar gyfer gwyliau neu wyliau byr


4.7 Mae tua 1 o bob 4 (26%) o farchnad gwyliau'r DU yn ystyried o ddifrif ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr yn ystod y 12 mis nesaf. Mae'r ystyriaeth i Gymru yn debyg i raddau helaeth i'r rhan fwyaf o gyrchfannau'r DU, er bod y Gorllewin a'r Alban yn uwch, mae'r Peak District ac Iwerddon yn is.

4.8 Ymhlith segmentau, mae Cymru yn y tri chyrchfan a ystyrir fwyaf ar gyfer 'archwilwyr teuluol egnïol' a 'theuluoedd ar gyllideb'. Mae lefel llawer is o ystyriaeth o ymweld â Chymru ymhlith Archwilwyr Diwylliant Hŷn, er bod hyn yn rhannol gysylltiedig â meintiau sylfaen isel a chrynodiad o'r segment hon yn rhanbarth Swydd Efrog.

.

**Cyfran sy'n ystyried o ddifrif ymweld â phob rhan o'r DU am wyliau neu wyliau byr yn ystod y 12 mis nesaf**

**(CC5a) (%) (Sylfaen: Pob un =1,150)**



**Cyfran sy'n ystyried o ddifrif ymweld â phob cyrchfan am wyliau byr neu wyliau yn ystod y 12 mis nesaf fesul segment**

*Mae’r tri rhanbarth a ffafrir fwyaf yn ôl segment mewn coch. Sylwer: Nid yw segmentau'n cael eu dosbarthu'n gyfartal fesul rhanbarth, felly bydd ymatebion yn cael eu llywio'n rhannol gan eu cyfansoddiad daearyddol, yn hytrach nag agweddau segment-benodol.*

| | Archwilwyr diwylliant hŷn | Archwilwyr golygfeydd sy’n gyplau | Archwilwyr teuluol egnïol | Archwilwyr cyn-teulu | Teuluoedd ar gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwlad y Gorllewin** | 23% | **49%** | **52%** | **51%** | **31%** |
| **Yr Alban** | **31%** | 27% | 30% | **37%** | **31%** |
| **Arfordir De Lloegr** | 15% | 21% | 30% | **37%** | **32%** |
| **Ardal y Llynoedd** | **42%** | **29%** | **39%** | 32% | 29% |
| **Cymru** | 8% | 27% | **35%** | 36% | **31%** |
| **Swydd Efrog** | **42%** | **28%** | 27% | 21% | 17% |
| **Iwerddon** | 10% | 20% | 19% | 34% | 19% |
| **Peak District** | 9% | 17% | 23% | 22% | 15% |

4.9 Er iddynt greu'r nifer uchaf o ymweliadau gan dri o ranbarthau'r DU, Cymru yw'r gyrchfan a ystyrir fwyaf ar gyfer ymweliad yn ystod y 12 mis nesaf ar gyfer dau o ranbarthau'r DU (Cymru a Gorllewin Canolbarth Lloegr), ac yn y tri chyrchfan mwyaf ystyriol ar gyfer pump o ranbarthau'r DU (Gogledd-orllewin Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Dwyrain Lloegr a De-orllewin Lloegr). Gall y gwahaniaeth rhwng ymweliadau blaenorol ac ystyriaeth gael ei ysgogi gan amlder yr ymweliadau, a allai yn ei dro fod yn gysylltiedig ag agosrwydd daearyddol. Er enghraifft, gall preswylydd o'r Alban ymweld â Chymru ond yn llai rheolaidd nag y maent yn ymweld â chyrchfannau agosach.

4.10 Fodd bynnag, nid agosrwydd yw'r unig sbardun i fwriadau ymweliad. Er enghraifft, mae 31% o drigolion Llundain yn ystyried ymweld ag Iwerddon o ddifrif yn ystod y 12 mis nesaf, 10 pwynt canran yn uwch na'r gyfran sy'n ystyried Cymru. Er gwaethaf ymweliadau blaenorol cymharol uchel â Chymru, dim ond y Peak District sy'n cael ei ystyried gan lai o drigolion Llundain. Mae hyn yn awgrymu y gallai marchnad Llundain gynnig cyfle i Gymru dyfu, yn enwedig o ystyried yr ystyriaeth sylweddol uwch sydd gan farchnad Llundain ar gyfer cyrchfannau ymhellach i ffwrdd na Chymru.

**Cyfran sy'n ystyried o ddifrif ymweld â phob cyrchfan yn ôl Rhanbarth Preswylio.**

*(Mae'r Rhanbarth Preswylio o fewn colofnau, cyrchfan ar y rhesi. Er enghraifft, mae 23% o drigolion Cymru yn ystyried o ddifrif wyliau byr neu wyliau i'r Alban yn ystod y 12 mis nesaf)*

| Cyrchfan | Rhanbarth Preswylio | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru | Yr Alban | Gogledd-ddwyrain Lloegr | Gogledd-orllewin Lloegr | Swydd Efrog | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Gorllewin Canolbarth Lloegr | Dwyrain Lloegr | Llundain | De-ddwyrain Lloegr | De-orllewin Lloegr |
| Cymru | **53%** | 16% | 12% | **41%** | 13% | 22% | **41%** | **25%** | 21% | 20% | **25%** |
| Yr Alban | 23% | **76%** | **46%** | 28% | **21%** | 19% | **27%** | 15% | 25% | **25%** | 23% |
| Iwerddon | 20% | **18%** | 27% | 19% | 15% | 18% | 17% | 15% | **31%** | 14% | 13% |
| Swydd Efrog | 16% | **27%** | **34%** | 28% | **58%** | **37%** | 17% | 17% | 22% | 16% | 13% |
| Ardal y Llynoedd | 19% | 16% | **36%** | **49%** | **36%** | **25%** | 23% | 24% | 28% | 24% | 13% |
| Gwlad y Gorllewin | **39%** | 12% | 22% | **33%** | 18% | **34%** | **38%** | **33%** | **34%** | **39%** | **60%** |
| Peak District | 8% | 7% | 12% | 19% | 13% | 23% | 18% | 17% | 19% | 17% | 7% |
| Arfordir De Lloegr | **25%** | 10% | 17% | 17% | 16% | 11% | 22% | **41%** | **36%** | **44%** | **36%** |


## Proffil y rhai sy'n ystyried Cymru ar gyfer gwyliau byr neu wyliau

4.11 Mae rhaniad cyfartal rhwng y rhywiau ar gyfer y rhai sy'n ystyried ymweliad â Chymru. Mae tua hanner (49%) o dan 44 oed, ac mae cyfran debyg mewn cyflogaeth amser llawn. Mae dros draean (36%) â phlant yn eu cartref. Mae dros 1 o bob 5 yn 65+ oed (22%). Yn arbennig, mae cyfran fach o Archwilwyr Diwylliant Hŷn yn ystyried ymweld â Chymru o'i gymharu â thua 3 o bob 10 o ystyrwyr sy'n ymweld â Chymru o'r segmentau eraill.


**Gwybodaeth broffilio 'ystyrwyr i Gymru'**

**(Sylfaen: n=338)**


**Rhaniad rhwng y rhywiau ar gyfer 'ystyrwyr' i Gymru**




**Dadansoddiad oedran ar gyfer 'ystyrwyr' Cymru**




**Ystyriaeth o Gymru fesul segment**




*Sylfaen isel, meintiau o lai na 30. I'w drin â gofal.

**Cyfran o 'ystyrwyr' i Gymru sydd â phlant o dan 16 oed ar yr aelwyd**

36%

## Proffil ystyrwyr ar gyfer pob gwlad

4.12 Mae rhai gwahaniaethau nodedig mewn proffiliau ystyrwyr ar gyfer pob cyrchfan a fesurir yn yr ymchwil. Cymru yw'r unig gyrchfan gyda rhaniad cymharol hafal o ran rhaniad rhwng y rhywiau, gyda phob cyrchfan arall yn denu'r mwyafrif o gynulleidfaoedd gwrywaidd.

4.13 Mae proffil oedran ystyrwyr i Gymru yn gymharol gyson â chyfartaledd y DU. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau yn ôl cyrchfan. Mae Swydd Efrog, Gwlad y Gorllewin a De Arfordir Lloegr yn denu cyfran uwch o'r rhai 55+ oed. Mae Iwerddon yn denu cyfran sylweddol uwch o'r rhai 16-34 oed.

### Proffilio gwybodaeth am 'ystyrwyr' pob cyrchfan yn ôl demograffeg allweddol

*(Noder: Mae'r ffigurau hyn yn dangos 'maint' yr ystyrwyr o fewn pob demograffeg yn hytrach na diddordeb ym mhob demograffeg. Er enghraifft, mae Llundain, er ei bod yn gymharol isel wrth ystyried Cymru ynddi'i hun (gweler 4.10 uchod), yn cynnwys dros 1 o bob 10 o bobl sy'n ystyried Cymru oherwydd maint ei phoblogaeth)*


| Yn ystyried ymweld â'r cyrchfannau hyn | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru | Yr Alban | Iwerddon | Swydd Efrog | Ardal y Llynoedd | Gwlad y Gorllewin | Peak District | Arfordir De Lloegr |
| **Gwryw** | 49% | 58% | 56% | 57% | 54% | 55% | 59% | 56% |
| **Benyw** | 51% | 42% | 44% | 43% | 46% | 45% | 41% | 44% |
| **16-34** | 23% | 25% | 34% | 21% | 26% | 22% | 28% | 21% |
| **35-44** | 26% | 24% | 26% | 23% | 29% | 23% | 28% | 25% |
| **45-54** | 19% | 21% | 18% | 20% | 18% | 18% | 15% | 18% |
| **55-64** | 9% | 9% | 9% | 9% | 9% | 9% | 7% | 9% |
| **65+** | 22% | 22% | 13% | 27% | 17% | 27% | 22% | 27% |
| **Oes** | 36% | 35% | 33% | 34% | 42% | 38% | 41% | 35% |
| **Nac oes** | 64% | 65% | 67% | 66% | 58% | 62% | 59% | 65% |
| **Cymru** | 10% | 4% | 5% | 3% | 4% | 6% | 3% | 5% |
| **Yr Alban** | 5% | 22% | 8% | 9% | 5% | 3% | 4% | 3% |
| **Gogledd-ddwyrain Lloegr** | 2% | 6% | 6% | 6% | 6% | 3% | 3% | 3% |
| **Gogledd-orllewin Lloegr** | 18% | 11% | 10% | 13% | 20% | 11% | 14% | 7% |
| **Swydd Efrog/Humber** | 4% | 6% | 7% | 20% | 11% | 5% | 7% | 5% |
| **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | 6% | 5% | 7% | 11% | 7% | 8% | 11% | 3% |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | 14% | 8% | 8% | 6% | 8% | 10% | 11% | 7% |
| **Dwyrain Lloegr** | 9% | 5% | 7% | 6% | 8% | 9% | 11% | 14% |
| **Llundain** | 11% | 11% | 20% | 11% | 14% | 13% | 17% | 18% |
| **De-ddwyrain Lloegr** | 11% | 12% | 9% | 9% | 12% | 16% | 15% | 23% |
| **De-orllewin Lloegr** | 8% | 6% | 6% | 5% | 4% | 15% | 4% | 11% |

## Rhesymau dros beidio ag ystyried Cymru

4.14 Nid oedd unrhyw resymau llethol dros beidio ag ystyried Cymru ar gyfer gwyliau neu wyliau byr, a'r mwyaf cyffredin oedd apêl lleoedd eraill (a nodwyd gan 26%), 'rhy bell i deithio' (25%) ac 'amodau'r tywydd' (23%). Mae canfyddiadau teithio i Gymru'n anodd gan gynnwys o amgylch Cymru hefyd yn rhwystr (20%).

4.15 Roedd diffyg gwybodaeth honedig o'r hyn sydd i'w weld a'i wneud yng Nghymru yn rhwystr i 1 o bob 7 (15%), gan dynnu sylw at y budd yng ngweithgaredd hyrwyddo Croeso Cymru o amgylch y gweithgareddau amrywiol sydd ar gael ar drip i Gymru. Mae 1 o bob 7 (15%) hefyd yn ystyried Cymru'n ddrutach na chyrchfannau eraill, gan wneud hyn yn rhwystr i ymweld ar gyfer rhai.

4.16 Ymhlith segmentau â blaenoriaeth roedd rhywfaint o amrywiad. 'Archwilwyr diwylliant hŷn' oedd fwyaf tebygol o gael eu hatal oherwydd y tywydd (42% yn nodi hyn o'i gymharu â 23% ar gyfartaledd) ac i ddweud bod 'lleoedd eraill yn fwy deniadol' (41% o'i gymharu â 26%). 'Archwilwyr golygfeydd' oedd fwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi ymweld yn flaenorol ac am roi cynnig ar rywle arall (30% o'i gymharu â 21%). Roedd apêl lleoedd eraill hefyd yn ffactor allweddol ar gyfer 'archwilwyr cyn-teulu' (25% o'i gymharu â 26%) ac 'archwilwyr gweithgaredd teuluol' (37% o'i gymharu â 26%), mae'r olaf hefyd yn debygol o ystyried Cymru yn ddrutach na chyrchfannau eraill (23% o'i gymharu â 15%).



4.17 Mae 'Mae lleoedd eraill yn fwy deniadol' hefyd yn brif reswm dros beidio ag ymweld â Chymru ymhlith trigolion o'r rhan fwyaf o ranbarthau'r DU, er nad dyma'r rheswm dros y *rhan fwyaf* o bobl nad ydynt yn ymwelwyr mewn *unrhyw* ranbarth.

4.18 'Mae Cymru'n rhy bell' yw'r prif reswm dros y rhai sy'n byw ymhellach i ffwrdd o Gymru, tra bod 'wedi ymweld yn flaenorol' yn rhwystr i'r rhai sy'n byw'n agosach, gan gynnwys trigolion sy'n byw yng Nghymru ei hun. Mae hyn yn awgrymu bod angen i Croeso Cymru gyfleu rhwyddineb mynediad a'r amrywiaeth o wahanol fathau o dripiau sydd ar gael.

4.19 Mae 'Ddim yn gwybod digon' am Gymru yn rheswm allweddol i drigolion Llundain, gan dynnu sylw at effaith bosibl marchnata ymhlith y gynulleidfa hon.

4.20 Mae tywydd gwael canfyddedig hefyd yn un o brif resymau'r rhai sy'n byw y tu allan i Gymru – yn llai felly i'r rhai sy'n byw yng Nghymru.

**Rhesymau dros beidio ag ymweld â Chymru gan drigolion pob rhanbarth.**

*(Sylfaen: Pob un nad ydynt o ddifrif yn ystyried ymweld â Chymru. Mae coch yn cynrychioli'r tri phrif rwystr ym mhob rhanbarth)*


| Rhesymau | Rhanbarth Preswylio | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru | Yr Alban | Gogledd-ddwyrain Lloegr | Gogledd-orllewin Lloegr | Swydd Efrog | Dwyrain Canolbarth Lloegr | Gorllewin Canolbarth Lloegr | Dwyrain Lloegr | Llundain | De-ddwyrain Lloegr | De-orllewin Lloegr |
| Lleoedd eraill yn fwy atyniadol | **14%** | **31%** | **36%** | **29%** | 18% | **28%** | **27%** | **29%** | **27%** | **24%** | **27%** |
| Rhy bell | 7% | **39%** | **39%** | 11% | **23%** | **24%** | 15% | **38%** | 22% | **27%** | **27%** |
| Y tywydd | 9% | 17% | 17% | **29%** | **25%** | **25%** | 31% | **25%** | 20% | **29%** | 16% |
| Wedi ymweld o'r blaen | **21%** | 13% | **19%** | **21%** | 15% | 17% | **34%** | 19% | **28%** | 17% | **37%** |
| Mae teithio i Gymru'n rhy anodd | 14% | 16% | 17% | 19% | **21%** | 16% | **35%** | 21% | 23% | 20% | 14% |
| Cynnig arbennig rhywle arall | **16%** | 18% | 11% | 18% | 22% | 14% | 26% | 13% | 22% | 14% | 8% |
| Amgylchiadau personol | 14% | **21%** | 11% | 16% | 10% | 16% | 23% | 17% | 18% | 13% | 9% |
| Rhy ddrud | 8% | 16% | 14% | 13% | 12% | 16% | 19% | 10% | 21% | 14% | 11% |
| Ddim yn gwybod digon | 8% | 16% | 5% | 9% | 12% | 16% | 11% | 13% | **25%** | 12% | 16% |
| Pryderon Amgylcheddol | 3% | 3% | 3% | 12% | 14% | 9% | 13% | 9% | 14% | 5% | 9% |
| Dim llawer i'w wneud | 8% | 9% | 3% | 11% | 3% | 9% | 10% | 6% | 7% | 8% | 9% |
| Rhy brysur/orlawn | 2% | 4% | 3% | 3% | 7% | 5% | 6% | 4% | 9% | 4% | 3% |
| Dim llety addas | 2% | 1% | - | 3% | 7% | 5% | 11% | 8% | 5% | 3% | 1% |
| Arall | 31% | 3% | - | 2% | 6% | 6% | - | 5% | 2% | 5% | 3% |
| Dim rheswm | 25% | 16% | 25% | 22% | 25% | 25% | 17% | 13% | 17% | 22% | 21% |
| Cyfartaledd nifer y rhesymau | 1.6 | 2.1 | 1.8 | 2.0 | 2.0 | 2.1 | 2.6 | 2.2 | 2.4 | 2.0 | 1.9 |

# 5. Ymweld â Chymru

## Amseriad trip a ragwelir i Gymru

5.1 O'r rhai ym marchnad y DU a oedd yn ystyried o ddifrif ymweld â Chymru yn ystod y 12 mis nesaf, roedd 1 o bob 5 (19%) eisoes wedi archebu trip ar gyfer 2020 adeg yr ymchwil ddiwedd Chwefror 2020. Roedd bron i hanner (45%) yn cynllunio trip yn 2020 ond nid oeddent wedi'i archebu eto. Roedd y gweddill naill ai'n cynllunio trip yn 2021 a thu hwnt (15%), neu nid oeddent yn siŵr (20%). Roedd 1 o bob 4 (23%) wedi archebu llety. Mae hyn yn amlygu'r angen i Croeso Cymru sicrhau bod Cymru'n parhau i fod ar flaen y meddwl i drosi'r rhai nad ydynt eto wedi penderfynu ymweld.

5.2 Roedd archebion yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar, a oedd darpar ymwelwyr yn byw y tu allan i Gymru ai peidio. Mae bron i 2 o bob 5 (37%) o 'ystyrwyr' sy'n byw yng Nghymru eisoes wedi archebu eu trip eleni, o'i gymharu â bron i 1 o bob 5 (17%) sy'n byw y tu allan i Gymru.




## Ble y bwriedir ymweld ag ef yng Nghymru

5.3 Mae trigolion y DU sy'n ystyried trip i Gymru yn ystyried ymweld â 2 ardal yng Nghymru ar gyfartaledd. Cyrchfannau Gogledd Cymru yw'r rhai mwyaf poblogaidd (a ystyrir gan gyfanswm o 54% o ymwelwyr posibl). Denodd Eryri 29% a Llandudno a Cholwyn 25%. Mae De Cymru (pob ardal ac eithrio Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru a Cheredigion) yn apelgar i gyfanswm o 52% o'r rhai sy'n ystyried Cymru). Caerdydd yw'r gyrchfan fwyaf poblogaidd yn Ne Cymru (21% yn ystyried ymweld), ac yna Bae Abertawe (14%) a Sir Benfro (13%).

5.4 Er bod y man preswylio yn pennu'r rhanbarth a ffafrir i ryw raddau – er enghraifft, mae trigolion Gogledd-orllewin Lloegr yn llawer mwy tebygol o ystyried ymweliad â Llandudno a Bae Colwyn ac ardaloedd eraill yng Ngogledd Cymru – nid yw hyn yn wir bob amser. Caiff trigolion Llundain a De-ddwyrain Lloegr eu denu fwyfwy i Eryri na'r rhan fwyaf o ardaloedd yn Ne Cymru, ac eithrio Caerdydd.

5.5 Mae trigolion Cymru yn mynegeio'n uchel ar gyfer Sir Benfro a Bae Ceredigion, yn llawer mwy felly na rhanbarthau eraill yn y DU.

**Ardaloedd o Gymru a ystyriwyd ar gyfer ymweliad yn 2020 (%)**



### Ardaloedd yng Nghymru yr ystyrir ymweld â nhw fesul rhanbarth


*(Sylfaen: Pob un sy'n ystyried ymweld â Chymru o ddifrif – rhanbarthau â maint sylfaenol o dan 25 wedi'u heithrio. Mae'r 3 uchaf fesul rhanbarth wedi'u hamlygu mewn coch)*

| | Rhanbarth Preswylio | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyrchfan yng Nghymru** | **Cymru** | **Gogledd-orllewin Lloegr** | **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | **Llundain** | **De-ddwyrain Lloegr** |
| Eryri | **24%** | **27%** | **20%** | **29%** | **47%** |
| Llandudno a Bae Colwyn | 19% | **52%** | **25%** | 14% | 11% |
| Caerdydd | 11% | 13% | 17% | **34%** | **21%** |
| Ynys Môn | 19% | **27%** | 6% | **26%** | 14% |
| Bae Abertawe | 7% | 6% | **19%** | 15% | 14% |
| Sir Benfro | **32%** | 13% | 16% | 11% | **18%** |
| Canolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog | 6% | 5% | 11% | 18% | 15% |
| Cymoedd De Cymru | 7% | 4% | 16% | 11% | 14% |
| Gogledd-ddwyrain Cymru | 6% | 6% | 6% | 7% | 3% |
| Bae Ceredigion/Ceredigion | **17%** | 4% | 6% | 15% | 4% |
| Swydd Gaerfyrddin | 10% | 6% | 6% | 7% | 15% |
| Dyffryn Gwy a Dyffryn Wysg | 4% | 4% | 3% | 7% | 0% |
| Arfordir Treftadaeth Morgannwg | 5% | 0% | 0% | 7% | 4% |

## Mis a ragwelir ar gyfer y trip nesaf i Gymru

5.6 Efallai nad yw'n syndod mai misoedd yr haf yw'r rhai mwyaf poblogaidd ar gyfer trip i Gymru (Awst sy'n cynhyrchu'r ymweliadau a fwriedir mwyaf, sy'n 24%), er bod o leiaf 10% yn dweud y byddant yn ymweld ym mhob un o'r misoedd rhwng mis Ebrill a mis Hydref. Ymhlith segmentau â blaenoriaeth lle mae meintiau sylfaenol yn caniatáu dadansoddi, mae 'archwilwyr teuluol egnïol' yn mynegeio'n uwch mewn misoedd pan fydd gwyliau ysgol (Ebrill, Gorffennaf, Awst a Medi), 'Archwilwyr golygfeydd sy'n gyplau' ym mis Mehefin (30% o'i gymharu â 18% ar gyfartaledd), 'Archwilwyr cyn-teulu' ym mis Awst (42% o'i gymharu â 24% ar gyfartaledd).

**Amseriad cynlluniedg trip nesaf i Gymru**
**(% ystyrwyr i Gymru)**




## Cyfansoddiad parti a ragwelir ar gyfer trip nesaf i Gymru

5.7 Mae ystyrwyr i Gymru o'r DU yn fwyaf tebygol o deithio i Gymru gyda'u partner (71% yn bwriadu gwneud hynny), ac yna 'eu plant' (39%) a 'ffrind/au' (15%). Byddai cyfanswm o 87% o ymwelwyr y DU yn teithio i Gymru gyda phartner neu deulu.

5.8 Yn nodedig, byddai 6% yn rhagweld teithio i Gymru ar drip aml-genhedlaeth (3 cenhedlaeth neu fwy). Yn dilyn COVID-19 disgwylir y bydd y math hwn o drip yn tyfu mewn amlygrwydd, wrth i deuluoedd geisio ailgysylltu yn dilyn wythnosau neu hyd yn oed fisoedd o unigedd cymdeithasol.

**Cyfansoddiad parti a ragwelir (Y 5 Uchaf)**


**(CG6) (Sylfaen: n=338)**




## Dull teithio a ragwelir i Gymru

5.9 Mae marchnad y DU yn fwyaf tebygol o deithio i Gymru drwy ddefnyddio eu car eu hunain (75% yn nodi hyn), ac ymhell wedi hynny gyda thrên' (16%). Byddai 19% yn defnyddio rhyw fath o drafnidiaeth gyhoeddus (naill ai trên a/neu fws/coets gyhoeddus).

**Y dull teithio a ragwelir i Gymru**



## Hyd trip a ragwelir i Gymru

5.10 O'r rhai ym marchnad y DU sy'n ystyried trip i Gymru, mae'r mwyafrif (60%) yn cynllunio mynd ar drip o 4+ noson, tra bod tua 2 o bob 5 (39%) yn cynllunio cymryd gwyliau byr. Mae hyn yn gyfran uwch o bobl sy'n bwriadu cymryd gwyliau hirach yng Nghymru na phatrwm cymryd gwyliau yn ystod y blynyddoedd diwethaf sy'n dangos cyfran uwch o wyliau byr. Ar gyfartaledd mae ystyrwyr i Gymru yn rhagweld cymryd trip hyd cyfartalog o 5 noson yng Nghymru.


5.11 Mae'r mis a ragwelir ar gyfer mynd ar dripiau yn gymharol gyson yn ôl gwyliau byr a gwyliau, er bod gwyliau fymryn yn fwy tebygol o gael eu cymryd ym mis Awst.

**Hyd cynlluniedig y trip i Gymru ymhlith 'ystyrwyr i Gymru'**

**(CG2) (Sylfaen: n=338)**

| 39% | 60% | 5 noson |
|---|---|---|
| **Yn cynllunio cymryd gwyliau byr i Gymru (1-3 noson)** | **Yn cynllunio cymryd gwyliau i Gymru (4+ noson)** | **Hyd cyfartalog trip cynlluniedig i Gymru (nosweithiau)** |


**Amseriad cynlluniedig y trip nesaf i Gymru fesul hyd y trip**
**(% ystyrwyr i Gymru)**



## Ffynonellau gwybodaeth a ragwelir i gynllunio’r trip nesaf i Gymru

5.12 Mae trigolion y DU sy'n cynllunio ymweld â Chymru am wyliau neu wyliau byr yn fwyaf tebygol o gynhyrchu gwybodaeth am eu trip drwy wefannau ac apiau (63%). Mae ar lafar hefyd yn bwysig, mae hanner (50%) yn cael eu dylanwadu gan argymhelliad personol. Mae 3 o bob 10 (31%) yn cael eu dylanwadu gan e-bost neu gyfryngau cymdeithasol, 1 o bob 4 (25%) drwy wybodaeth brintiedig.

**Ffynonellau gwybodaeth net (%) (Sylfaen: n=338)**



5.13 Sgyrsiau gyda ffrindiau a theulu sydd wedi ymweld yw'r ffynhonnell wybodaeth unigol fwyaf ar gyfer trip i Gymru, 37% yn nodi hyn, ac yna peiriant chwilio (28%) a safleoedd adolygu teithwyr (25%). Ystyrir bod asiantau teithio ar-lein hefyd yn ddylanwad pwysig. O ddylanwadau'r cyfryngau cymdeithasol, cyfryngau cymdeithasol ffrind yw'r pwysicaf (16% yn nodi hyn). Fodd bynnag, mae tua 1 o bob 9 (11%) yn cael eu perswadio gan dudalennau cyfryngau cymdeithasol Bwrdd Croeso, gan danlinellu pwysigrwydd cynnwys cymdeithasol Croeso Cymru.


**Ffynonellau gwybodaeth a ragwelir ar gyfer trip i Gymru (%)**



## Sianeli archebu a ragwelir ar gyfer trip nesaf i Gymru

5.14 Mae 2 o bob 5 (38%) o'r rhai sy'n cynllunio ymweliad â Chymru yn rhagweld archebu eu llety'n uniongyrchol drwy ddarparwr llety, ac yna tua thraean (32%) yn cynllunio gwneud hynny drwy wefan deithio (fel Booking.com neu Expedia).

5.15 Fodd bynnag, mae gwahaniaethau nodedig yn ôl grwpiau oedran. Ymhlith pobl 25-44 oed, gwefannau teithio yw'r sianel archebu rhif un, ac ar gyfer y rhai 45 oed a throsodd, defnyddir 'darparwyr llety' yn sylweddol fwy na'r cyfartaledd.




# 6. Cyswllt gyda Croeso Cymru

## Gohebiaeth ddiweddar a welwyd/a glywyd am Gymru yn ddiweddar

6.1 Heb brocio, mae tua 1 o bob 5 (18%) o farchnad y DU yn cofio gweld hysbysebion teledu am Gymru yn ddiweddar ac 1 o bob 6 yn cofio rhaglen deledu neu ffilm am Gymru. Mae galw i gof am amrywiaeth o gyfathrebiadau eraill am Gymru, 42% wedi gweld neu glywed cyfathrebiadau am Gymru mewn o leiaf un lle.

6.2 Mae'r gwaith o alw i gof y cyfathrebiadau am Gymru ar ei uchaf ymhlith trigolion Cymru, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Llundain, ac efallai fod yr olaf yn gysylltiedig â marchnata wedi'i dargedu. Mae hefyd yn uchel ymhlith 'archwilwyr teuluol egnïol'.

Cyfathrebiadau a welwyd/glywyd am Gymru yn ddiweddar



## Cyfathrebiadau a welwyd/glywyd fesul rhanbarth

| | Rhanbarth Preswylio | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cymru** | **Yr Alban** | **Gogledd-ddwyrain Lloegr** | **Gogledd-orllewin Lloegr** | **Swydd Efrog** | **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | **Dwyrain Lloegr** | **Llundain** | **De-ddwyrain Lloegr** | **De-orllewin Lloegr** |
| Teledu a hysbysebu | 26% | 10% | 7% | 20% | 24% | 22% | 23% | 10% | 20% | 22% | 16% |
| Ar lafar | 21% | 4% | 12% | 8% | 13% | 13% | 9% | 10% | 6% | 8% | 10% |
| Rhaglen deledu neu ffilm | 18% | 10% | 10% | 13% | 16% | 16% | 25% | 13% | 22% | 14% | 14% |
| Erthygl | 11% | 9% | 2% | 10% | 8% | 4% | 10% | 5% | 14% | 10% | 7% |
| Hysbysebu/ rhaglenni radio | 7% | 4% | 2% | 8% | 9% | 4% | 9% | 4% | 9% | 1% | 4% |
| Hysbyseb/taflen mewn papur newydd | 7% | 7% | 5% | 5% | 4% | 7% | 11% | 4% | 9% | 5% | 5% |
| Hyrwyddiad neu gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol | 6% | 3% | 5% | 7% | 11% | 7% | 7% | 2% | 14% | 4% | 5% |
| Hysbysebu ar-lein | 5% | 5% | 2% | 4% | 6% | 7% | 6% | 7% | 10% | 3% | 5% |
| Hysbysebu allanol | 4% | 1% | 5% | 2% | 1% | 8% | 7% | 7% | 9% | 2% | 4% |
| Hysbysebu yn y sinema | 3% | 2% | 5% | 7% | 5% | 1% | 8% | 4% | 9% | 4% | 2% |
| Hyrwyddiad neu gynnwys ar wefan | 3% | 2% | 5% | 3% | 2% | 1% | 7% | 7% | 5% | 4% | 2% |
| Dim un o'r rhain | 42% | 67% | 71% | 58% | 56% | 61% | 46% | 65% | 48% | 60% | 64% |

## Yn cofio hysbyseb teledu Croeso Cymru (prociwyd)

6.3 Mae bron i 1 o bob 4 o farchnad y DU yn cofio gweld hysbysebion teledu Croeso Cymru yn ddiweddar. Ymhlith segmentau blaenoriaeth Croeso Cymru, 'archwilwyr teuluol egnïol' oedd fwyaf tebygol o ddwyn i gof, er eu bod yn tueddu i ymgysylltu'n uwch â marchnata yn gyffredinol.

6.4 Mae'n werth nodi bod yr ymchwil wedi'i gynnal ar ddechrau cylch hysbysebu teledu Croeso Cymru.

## Yn cofio hysbyseb teledu Croeso Cymru yn gyffredinol a fesul segment

(CH2) (Sylfaen: n=1,150)


**22%**

**Yn cofio gweld hysbyseb teledu Croeso Cymru**

| Archwilwyr Diwylliant Hŷn | Archwilwyr golygfeydd | Archwilwyr teulu egnïol | Archwilwyr cyn-teulu | Teuluoedd ar gyllideb |
|---|---|---|---|---|
| 10% | 20% | 25% | 19% | 21% |

## Ymgysylltiad â chyfathrebiadau Croeso Cymru yn y 12 mis diwethaf

6.5 Mae 1 o bob 4 (25%) o farchnad y DU wedi ymgysylltu â ffynonellau cyfathrebu Croeso Cymru mewn rhyw ffordd yn ystod y 12 mis diwethaf, 15% gyda chyfryngau cymdeithasol Croeso Cymru. Nododd 1 o bob 10 (10%) eu bod wedi ymweld â gwefan Croeso Cymru yn ystod y 12 mis blaenorol. Roedd 7% yn cofio e-gylchlythyrau gyda chyfrannau tebyg yn ymgysylltu â Facebook, Instagram, Trydar a Youtube.



# 7. Prif Ganfyddiadau a Goblygiadau

7.1 Mae **cyllid personol yn ddylanwad allweddol ar ymddygiad Prydeinwyr sy'n cymryd gwyliau**, yn enwedig o ran tripiau yn y DU. O'r 2 o bob 5 a oedd yn rhagweld cymryd mwy o dripiau yn y DU yn ystod y 12 mis nesaf, roedd cyllid yn rheswm dros wneud hynny ar gyfer hanner. Roedd gwerth gwych am arian yn ffactor dylanwadol i 3 o bob 5 o'r holl Brydeinwyr sy'n cynllunio cymryd trip yn y DU eleni. Mae pwysigrwydd ystyriaethau ariannol – a fydd yn debygol o fod yn fwy wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, yn amlygu'r angen i Croeso Cymru hyrwyddo gwerth da tripiau yng Nghymru, yn enwedig i 'archwilwyr teuluol egnïol' ac 'archwilwyr cyn-teulu' y mae 'gwerth am arian' yn sbardun dylanwadol ar gyfer dewis iddynt.

7.2 Er gwaethaf pwysigrwydd ystyriaethau ariannol ar gyfer cyfran fawr o'r farchnad ddomestig, **nid yw pob ymwelydd yn mabwysiadu'r meddylfryd hwn**. Mae ystod eang o ffactorau eraill yn dylanwadu ar ymddygiad, y mae rhai ohonynt yn awgrymu ymwelydd posibl mwy cefnog. Er enghraifft, mae llety o ansawdd uchel yn dylanwadu ar draean, ac 1 o bob 4 gan leoedd sy'n enwog am eu bwyd a'u diod. Ar gyfer 'archwilwyr diwylliant hŷn', 'gwerth am arian' yw'r 7fed dylanwad pwysicaf. Gyda hyn mewn golwg, mae'n bwysig bod Cymru'n cael ei chyflwyno fel 'cyrchfan o safon' yn ogystal â gwerth da am arian.

7.3 **Mae gan y mwyafrif helaeth o'r farchnad gwyliau domestig ddiddordeb mewn mynd ar drip yn y DU naill ai mewn cyrchfannau arfordirol neu wledig.** Y tu ôl i werth am arian, 'golygfeydd a thirweddau' yw'r gyrrwr dewis mwyaf dylanwadol (y pwysicaf ar gyfer 'archwilwyr golygfeydd'), a byddai dros hanner yn rhagweld cymryd rhan mewn ymarfer corff awyr agored ar drip. Mae hefyd yn werth nodi bod pryderon amgylcheddol yn sbardun i tua 1 o bob 5 o'r rhai sy'n bwriadu mynd ar dripiau yn y DU eleni. Gyda'i gilydd, mae'r holl ffactorau hyn yn awgrymu y gallai ymgyrch Blwyddyn Awyr Agored Croeso Cymru atseinio'n gryf â'r farchnad ddomestig.

7.4 Fodd bynnag, **mae gan y mwyafrif llethol o'r farchnad ddomestig ddiddordeb hefyd mewn tripiau i ardaloedd trefol**, p'un a ydynt yn drefi a dinasoedd mawr, neu'n drefi hanesyddol a threftadaeth, yn enwedig y tu allan i dymor yr haf. Mae'n bwysig felly nad yw Croeso Cymru yn esgeuluso treftadaeth drefol adeiledig Cymru tra'n hyrwyddo'r Flwyddyn Awyr Agored.

7.5 Yn yr un modd, **mae'n amlwg bod rôl bwysig i bentrefi a chanolfannau gwyliau** ar gyfer 'archwilwyr teuluol egnïol' gan mai dyma'r math mwyaf ystyriol o gyrchfan ar gyfer gwyliau yn y DU ganddyn nhw.

7.6 **Mae'r rhan fwyaf o'r farchnad ddomestig wedi ymweld â Chymru'n flaenorol am wyliau neu wyliau byr ond dim ond lleiafrif sy'n teimlo eu bod yn adnabod Cymru'n dda iawn neu'n weddol dda.** Felly, mae'n hanfodol hyrwyddo'r hyn y gallwch ei wneud yng Nghymru, a'r hyn sydd ganddi i'w chynnig, y tu hwnt i gyfathrebu ysbrydoledig a allai ar y dechrau ddal y dychymyg. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r 1 o bob 5 Prydeiniwr nad ydynt wedi ymweld â Chymru eto, ond a hoffai wneud hynny, a'r rhai sydd wedi ymweld unwaith yn unig. Efallai y bydd angen hyrwyddo ardaloedd o Gymru y tu hwnt i gyrchfannau deniadol yr Wyddfa, Llandudno a Chaerdydd, gan dynnu sylw efallai at ardaloedd a ffafrir gan drigolion Cymru yng Ngorllewin Cymru. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r 1 o bob 5 o bobl nad ydynt yn ymweld â Chymru nad ydynt yn ymweld oherwydd eu bod wedi ymweld yn flaenorol.

7.7 **Mae’n bosibl, wedi’i yrru gan gynefindra isel, mai rhwystr sylweddol i ymweld â Chymru yw'r anhawster canfyddedig o deithio i'r wlad ac oddi mewn i'r wlad.** Gall marchnata Blwyddyn Awyr Agored, a'i hawgrymiadau o antur a thiroedd gwyllt, waethygu'r rhwystr hwn yn anfwriadol, felly dylai Croeso Cymru wneud popeth sy'n bosibl i dynnu sylw at hwylustod mynediad i'r wlad ac oddi mewn i'r wlad.

7.8 **Mae’n bosibl mai'r cyfle i gynyddu cynefindra sydd fwyaf i drigolion Llundain a'r De-ddwyrain.** Ar hyn o bryd, nid yw Cymru yn y tri chyrchfan mwyaf ystyriol ar gyfer gwyliau neu wyliau byr i drigolion Llundain a'r De-ddwyrain. Er y gyrrir hyn yn rhannol gan agosrwydd (mae Arfordir De Lloegr yn y 3 uchaf), nid dyma'r unig ffactor - mae Gwlad y Gorllewin ac Iwerddon hefyd yn ffurfio'r tri uchaf. Yn nodedig, mae trigolion Llundain yn fwy tebygol nag unrhyw ranbarth arall o ddweud nad ydynt yn ystyried Cymru yn 2020 am nad ydynt yn gwybod digon amdani. Mae 'arfordiroedd golygfaol a harbwrs' yn brif flaenoriaeth i farchnad Llundain a De-ddwyrain Lloegr - ardal lle mae gan Orllewin Lloegr gymdeithasau sylweddol uwch ar hyn o bryd. Gall cynyddu cynefindra â Chymru a'i harfordiroedd golygfaol drwy'r Flwyddyn Awyr Agored yrru trigolion o Lundain a'r De-ddwyrain i ddewis Cymru dros Orllewin Lloegr, yn enwedig mewn cyfnod o gadw pellter cymdeithasol o ystyried cysylltiadau Gwlad y Gorllewin â gor-dwristiaeth. Gall hyrwyddo agosrwydd yr arfordir at fynyddoedd a threftadaeth hanesyddol hefyd roi pwynt gwerthu cryf i Gymru dros Orllewin Lloegr.

7.9 **Gall hyrwyddo arfordiroedd golygfaol Cymru** hefyd fod yn atyniad i segmentau blaenoriaeth Croeso Cymru, y mae pob un ohonynt ar hyn o bryd yn rhestru 'arfordiroedd golygfaol a harbwrs' fel math cyrchfan gwyliau domestig sydd y '2 uchaf', ac yn sgorio Gwlad y Gorllewin yn sylweddol uwch yn yr ardal hon. Gall 'archwilwyr teuluol egnïol' fod yn darged arbennig o dda ar gyfer hyn, o ystyried eu bwriad i gymryd mwy o wyliau yn y DU eleni.

7.10 **Dylai Croeso Cymru hefyd ystyried ei farchnadoedd craidd**, yn enwedig rhanbarthau cyfagos fel Gogledd-orllewin Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr a thrigolion Cymru y mae disgyniad a nifer yr ymwelwyr posibl ar eu huchaf. Ar ôl codi cyfyngiadau symud y DU, efallai na fydd teithwyr domestig yn dymuno teithio'n bell ar eu gwyliau felly mae'r rhanbarthau hyn yn debygol o gymryd pwysigrwydd arbennig.

7.11 **Dim ond 1 o bob 4 o'r rhai sy'n bwriadu ymweld â Chymru ar gyfer trip sydd wedi archebu mewn gwirionedd, felly mae marchnata Croeso Cymru yn bwysig iawn i barhau i fod ar flaen y meddwl.** Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r rhai sy'n byw'n agosach at Gymru, sy'n fwy tebygol o ymweld na'r rhai sy'n byw ymhellach i ffwrdd. Gall teithio cyfleus, agos ddod yn fwy o ffactor wrth i gyfyngiadau COVID-19 leddfu.

7.12 **Tuedd arall a ragwelir yn dilyn COVID-19 yw teithiau teuluol aml-genhedlaeth.** Ar hyn o bryd mae’r rhain yn cyfrif am 6% o ymwelwyr gwyliau i Gymru. Mae hyn yn debygol o dyfu wrth i deuluoedd geisio ailgysylltu ar ôl wythnosau neu fisoedd o gadw pellter cymdeithasol. Efallai y bydd Croeso Cymru am hyrwyddo'r potensial ar gyfer y mathau hyn o dripiau.

# 8. Atodiad: Methodoleg

## Methodoleg

8.1 Cysylltwyd ag ymatebwyr drwy banel ar-lein y gellid ei gwblhau drwy'r bwrdd gwaith neu ddyfais symudol. Defnyddiwyd cyfuniad o baneli, gyda Dynata fel prif ddarparwr y panel

8.2 Cynhaliwyd gwaith maes rhwng **20fed Chwefror ac 2il Mawrth 2020**, cyn y prif achosion o COVID-19 a'r cyfyngiadau yn y DU. Cymerodd yr arolwg 20 munud i'w gwblhau ar gyfartaledd.

8.3 Er mwyn sicrhau ansawdd yr ymatebion, rhoddwyd nifer o gamau ar waith yn ystod ac yn dilyn yr arolwg:

(1) Ar ddechrau'r arolwg, rhoddwyd 'cwestiwn baglu' i ymatebwyr, i sgrinio'r rhai a oedd yn darparu ymatebion cadarnhaol at ddiben cymhwyso ar gyfer yr arolwg yn unig. Roedd y cwestiwn yn gofyn i ymatebwyr nodi'r cyfandiroedd yr oeddent wedi ymweld â nhw am wyliau yn 2019. Sgriniwyd allan ymatebwyr a oedd yn ticio pob bocs.

(2) Ymatebion fflat – dilëwyd ymatebwyr a roddodd ymatebion tebyg i'r holl gwestiynau sgorio yn yr arolwg.

(3) Cyflymwyr –dilëwyd ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg mewn amser cyflym afrealistig.

(4) Gwiriwyd tablau data yn erbyn y data crai.

(5) Cynhaliwyd pob cam yn unol ag ISO20252.

8.4 Cwblhawyd 1,150 o arolygon. Roedd y 1,000 o ymatebion cyntaf yn cynrychioli poblogaeth ddomestig y DU sy'n cymryd gwyliau yn genedlaethol. Sefydlwyd hyn drwy ailadrodd cwestiynau cymhwyso'r astudiaeth hon ar arolwg Omnibws a gynrychiolwyd yn genedlaethol a gynhaliwyd rhwng 5ed Chwefror ac 11eg Chwefror 2020. Yna cynhaliwyd hwb o 150 o arolygon ymhlith trigolion o Gymru.

8.5 Pwysolwyd yr ymatebion terfynol fel bod trigolion Cymru yn cynrychioli poblogaeth y DU.

## Diffiniad sampl

8.6 Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr arolwg, roedd yn rhaid i gyfranogwyr fodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid bod yn benderfynwr gwyliau neu wyliau byr.
- Rhaid ystyried cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU *o ddifrif* yn ystod y 12 mis nesaf.

## Meintiau sylfaen a dibynadwyedd ystadegol

8.7 Cyfeirir at wahanol is-grwpiau drwy gydol yr adroddiad hwn, ac mae'n hanfodol bod y darllenydd yn ymwybodol o'i feintiau sylfaen a dibynadwyedd ystadegol y ffigurau a gyflwynwyd. Mewn rhai achosion, mae meintiau sylfaen yn isel, felly dylid eu trin yn ofalus. Mae'r tabl isod yn dangos ymylon gwallau ar lefel hyder o 95% ar gyfer rhai o'r is-grwpiau allweddol a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad.

| Maint y sampl neu'r is-grŵp y seilir canlyniad yr arolwg arno | 10% neu 90% ± | 30% neu 70%± | 50%± |
|---|---|---|---|
| **POB YMATEBYDD (1,150)** | 1.7 | 2.6 | 2.9 |
| **YSTYRWYR I GYMRU (338)** | 3.2 | 4.9 | 5.3 |
| Yr Alban (81) | 6.2 | 9.4 | 10.3 |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr (41) | 9.2 | 14.0 | 15.3 |
| Gogledd-orllewin Lloegr (110) | 5.6 | 8.6 | 9.3 |
| Swydd Efrog/Humber (84) | 6.4 | 9.8 | 10.7 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr (72) | 6.9 | 10.6 | 11.5 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr (88) | 6.3 | 9.6 | 10.4 |
| Dwyrain Lloegr (92) | 6.1 | 9.4 | 10.2 |
| Llundain (128) | 5.2 | 7.9 | 8.7 |
| Dwyrain Lloegr (138) | 5.0 | 7.6 | 8.3 |
| De-orllewin Lloegr (84) | 6.4 | 9.8 | 10.7 |
| Cymru (200) | 4.2 | 6.4 | 6.9 |
| Gogledd Iwerddon (29) | 10.9 | 16.7 | 18.2 |
| Archwilwyr diwylliant hŷn (26) | 11.5 | 17.6 | 19.2 |
| Archwilwyr golygfeydd sy'n gyplau (73) | 6.9 | 10.5 | 11.5 |
| Archwilwyr teuluol egnïol (68) | 7.1 | 10.9 | 11.9 |
| Archwilwyr cyn-teulu (66) | 7.2 | 11.1 | 12.1 |

## Cyfyngiadau Methodoleg

8.8 Fel gyda phob arolwg o'r math hwn mae rhai cyfyngiadau gyda methodoleg yr arolwg. Y prif gyfyngiadau yw:

- **Rhagfarn hunan-ddethol:** Mae'r ymatebwyr yn yr arolwg hwn yn 'hunan-ddethol', sy'n golygu eu bod wedi cyflwyno eu hunain i gwblhau'r ymchwil. Mae hyn yn naturiol yn creu tuedd yn y math o ymatebydd sy'n ateb yr arolwg. Er enghraifft, maent yn tueddu i fod yn unigolion mwy rhagweithiol na'r boblogaeth ar gyfartaledd, ac felly gallant fynegeio'n uwch yn eu tebygolrwydd o ymweld â chyrchfannau'r DU. At hynny, fel pobl sy'n ymateb yn rheolaidd i arolygon o bob

math gwahanol, maent yn debygol o fod â barn fwy datblygedig ar amrywiaeth o faterion na'r cyfartaledd.

- **Sampl ar-lein:** Er bod y rhan fwyaf o Brydeinwyr bellach ar-lein, mae 'llythrennedd ar-lein' yn parhau'n is ar gyfer y poblogaethau hŷn, felly mae'n debygol y bydd y duedd hunan-ddethol yn effeithio'n anghymesur ar y grŵp oedran hwn.
- **Ymatebion damcaniaethol:** Bydd rhai ymatebion yn seiliedig ar amcanestyniadau damcaniaethol, a dylid eu hadolygu yng ngoleuni hyn. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys cwestiynau ynghylch archebu a ragwelir ac ymddygiad teithio wrth ymweld â Chymru.
- **Dylanwadau gwrthdrawiadol:** Ar gyfer rhai is-grwpiau, bydd ffactorau y tu hwnt i ddiffiniad hunangynhwysol yr is-grŵp yn dylanwadu ar ymatebion. Er enghraifft, ar gyfer cwestiynau am ymweliadau blaenorol â Chymru, mae 'rhanbarth preswyl' yn ddylanwad blaenllaw (pellter yn rhwystr allweddol i ymweld). Os yw segment blaenoriaeth yn anghymesur yn byw ymhell o Gymru, bydd eu tebygolrwydd o ymweld yn is oherwydd ble maent yn byw, yn hytrach nag oherwydd eu dewisiadau segment.

8.9 Mae'n bwysig nodi y bydd y cyfyngiadau hyn yn gyson ar draws tonnau'r arolwg, felly caiff unrhyw symudiadau mewn ymatebion eu llywio gan ffactorau dilys, y tu allan i'r fethodoleg.